



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau o Gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

21 Gorffennaf 2017

10:30 – 12:30

Yr Optic, Parc Busnes Llanelwy

Yn Bresennol: Cyng Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, Rob Smith, David Worrall, Mary Wimbury, Margaret Hanson, Siobhan Adams (ar ran Teresa Owen), Dawn Docx, Neil Ayling, Cyng Joan Lowe, Morag Olsen, Debbie Shaffer, Sheila Finnigan Jones (ar ran Clare Field), Caroline Turner, Vin West, Richard Debicki, Llinos Medi Huws, Jenny Williams, Cyng Bobby Feeley, Cyng Liz Roberts

Ymddiheuriadau: Nicola Stubbins, Clare Field, Teresa Owen, Cyng Christine Jones, Lynda Colwell, Morwena Edwards, Wendy Jones

Hefyd yn bresennol: Sarah Bartlett, Lesley Singleton

Eitem	Nodiadau	Camau Gweithredu
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>Nododd y Cadeirydd y bydd angen ailedrych ar Gylch Gorchwyl a Chyfansoddiad BPRhGC o ran y trefniadau dirprwyo ac a yw'r BPRhGC yn gyfarfod agored neu gaeedig. Nes bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddarau, bydd y rhai sy'n mynychu'r BPRh i gyflwyno eitemau rhaglen ar eu pen eu hunain neu ar y cyd yn mynychu'r Bwrdd yn ystod yr eitemau hynny yn unig. Rydym yn gofyn am gyngor cyfreithiol a bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach pan fydd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu gan y Bwrdd.</p> <p>Roedd yr Aelodau yn cytuno i'r cyfarfod heddiw fod yn gyfarfod caeedig i aelodau yn unig, ac i'r rhai sy'n mynychu ar gyfer eitemau rhaglen penodol gael eu gwahodd i gymryd rhan yn eu eitem rhaglen nhw yn unig.</p>	RW i gynnwys hyn ar y rhaglen 6.9.17

2.	<p><u>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u> Cytunwyd y bydd yr eitem yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.</p>	I'w gynnwys ar y rhaglen ar gyfer 6 Medi 2017
3.	<p><u>Datblygu Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol – Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru</u> Cyflwynodd JW adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol. Mae'r strategaeth yn y camau terfynol ac yn cael ei gyflwyno i'r BPRhGC cyn ymgynghoriad ehangach a chyn i'r drafft terfynol gael ei gwblhau ym mis Medi 2017. Yna bydd angen i'r Bwrdd hwn gymeradwyo'r Strategaeth.</p> <p>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r SSWBA yn hytrach na swyddi. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud rhwng partneriaid i ddatblygu'r strategaeth ac mae'n ystyried cyfeiriad deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae trafodaeth gyda phartneriaid wedi tynnu sylw at ystod o heriau – adnoddau, gofynion cynyddol iechyd a gofal cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Y bwch mwyaf yw datblygu gwasanaethau ataliol a darparu gofal mewn cymunedau.</p> <p>Bydd y strategaeth yn berchen i GAGC a BPRhGC ac yn cael ei oruchwylio ganddynt i sicrhau bod BGGC yn ymrwmo i fuddsoddi adnoddau priodol i ddarparu'r blaenoriaethau yn y strategaeth. Bydd y strategaeth hefyd yn cael ei adolygu yn flynyddol gydag adroddiadau diweddarau yn cael eu cyflwyno i GAGC a BPRhGC.</p> <p>Mae blaenoriaethau yn cynnwys sefydlogi'r gweithlu, dysgu a datblygu a deallusrwydd gweithlu a chynllunio gan gynnwys y trydydd sector. Roedd aelodau'r bwrdd yn falch o ddysgu y gall staff trydydd sector gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi yn y sector.</p> <p>Mynegwyd pryder nad yw'r strategaeth yn cynnwys disgrifiad digonol mewn perthynas â chydarddoldeb o ran cydbwysedd rhyw i sicrhau gweithlu amrywiol, er yr awgrymir bod y gweithlu yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.</p> <p>Mater arall y gellir ei wynebu yn y dyfodol yw dosbarthu staff o ganlyniad i Brexit/Horizon/Carchar EM a all achosi dadleoliad staff mewn Gofal Cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol.</p> <p>Mae'r strategaeth hyd yma wedi cael cyfraniad sylweddol gan y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ond mae cyfleoedd yn</p>	

	<p>parhau ar gyfer cyfraniad gan bartneriaid allanol ychwanegol. Nid oes gan JW unrhyw wrthwynebiad i bartneriaid ehangach ymuno â'r Bwrdd Gweithlu os ydynt yn dymuno. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad yw ceisio eglurder ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y strategaeth i bob partner. Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd gadarnhau eu trefniadau unigol, a gellir paratoi adroddiad templed safonol ar gyfer pwrpasau rhoi gwybod. Cadarnhaodd JW bod adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon.</p> <p>Mynegodd yr Aelodau bryder mewn perthynas â threfnu Prentisiaid gan fod gwaith i ddechrau ym Mlwyddyn 2 a gofynnwyd a ddylai hyn fod yn rhan o'r rhaglen ym Mlwyddyn 1 lle bydd staff yn cael eu hyfforddi i gynnal a sefydlogi'r gweithlu.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol wedi cyflwyno i'r Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol ac mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd rŵan yn ffurfio rhan o'u rhaglen.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r adroddiad a chwblhau'r strategaeth. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn yr hydref.</p>	
4.	<p><u>Asesiad o Anghenion Poblogaeth – Cynlluniau Ardal</u> Mynychodd Sarah Bartlett i gyd-gyflwyno'r eitem rhaglen hon gyda JW. Mae Rhan 1 o'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer integreiddio a bydd rhan 2 y cynllun yn ymateb i'r canfyddiadau yn yr asesiad.</p> <p>Mae rhai rhannau o'r cynllun ardal sy'n parhau heb eu cwblhau a gofynnir i gydweithwyr gynorthwyo gyda hyn. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau pan fydd y Bwrdd wedi cefnogi'r templed hwn. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd hefyd nodi'r risgiau a nodwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bodloni gofynion Llywodraeth Cymru. 2. Bodloni disgwyliadau'r Bwrdd RPB. 3. Capasiti i gyflawni blaenoriaethau yn y rhanbarth. <p>Cynhelir ymgynghoriad ar y wefan, gyda phartneriaid a gyda dinasyddion. Gall bartneriaid gynnal eu hymarfer ymgynghori eu hunain a bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r BPRhGC.</p> <p>Gofynnodd y Bwrdd am gael ailedrych ar yr adroddiad mewn perthynas â geiriau allweddol penodol. Gwnaed arsylwadau mewn perthynas â phlant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabled a salwch a hefyd bod pobl hŷn yn rhai dros</p>	

	<p>65 oed yn hytrach na dros 50 oed. Mae hefyd nifer o feysydd sydd angen eu gwirio e.e. nifer y gwelyau iechyd meddwl, cyfeirio at unedau diogel isel a chanolig.</p> <p>Mynegodd aelodau'r trydydd sector bryder ynglŷn â gallu cyfrannu i'r cynllun trwy'r Bwrdd hwn yn unig. Estynnir gwahoddiad i'r trydydd sector gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Esboniodd SB bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys trais mewn perthynas â merched. Mae grŵp rhanbarthol yn arwain ar hyn a bydd y cynllun ardal yn cyfeirio at hyn yn hytrach na dyblygu'r gwaith.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r adroddiad uchod.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Cynllun Gweithredu a Llywodraethu I M</u></p> <p>Mynychodd Lesley Singleton i gyd-gyflwyno'r eitem hon gyda JW.</p> <p>Bwriad y ddogfen fframwaith a ddisbarthwyd yw darparu'r camau cyntaf wrth ddisgrifio'r llywodraethu mewn perthynas â chynllun gweithredu'r Strategaeth IM.</p> <p>Mae'r llywodraethu yn cynnwys grwpiau gweithredu a darparu lleol a fydd yn cymhell y newidiadau sydd eu hangen mewn gwasanaethau IM.</p> <p>Sefydlwyd y Grŵp Comisiynu IM i sicrhau bod yr agwedd at gomisiynu yn eglur a chyson ledled y rhanbarth.</p> <p>Mae'r cynllun dirprwyo arfaethedig yn cael ei drafod yn y papur ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu a chytuno ar gynllun dirprwyo i lefelau lleol.</p> <p>Y camau nesaf fydd sefydlu'r chwe Tîm Gweithredu Lleol (LITs) a fydd yn gyfrifol am gymhell y strategaeth IM ar gyfer Gogledd Cymru yn eu hardaloedd.</p> <p>Nododd RD bod croeso mawr i'r darn hwn o waith gan y bydd y strwythur yn darparu cyfle i gipio materion risg mewn perthynas â IM yn ogystal â'r galw am wasanaethau.</p> <p>Holodd yr Aelodau sut y bydd camddefnyddio sylweddau a thrais domestig yn cyd-fynd â'r strategaeth hon.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r llywodraethu a nodwyd yn yr adroddiad.</p>	

<p>6.</p>	<p><u>Ethol Is Gadeirydd</u> Rhoddwyd dau enwebiad i'r Cadeirydd: David Worrall a Margaret Hanson.</p> <p>Cynigiodd y Cadeirydd bod cadeiryddion y dyfodol yn cael eu penodi yn eu tro o'r tri sector sy'n rhan o'r Bwrdd gan fod cyfraniad pob sector yn werthfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd • Awdurdod Lleol • Anstatudol <p>Cytunodd Aelodau'r Bwrdd i hyn ac ar y sail uchod, gofynnodd DW am gael tynnu ei enwebiad yn ôl, ac o ganlyniad etholwyd Margaret Hanson yn is-gadeirydd.</p> <p>Felly, bydd trefniadau cadeirio yn newid a'r mis Ebrill nesaf gall aelodau anstatudol y Bwrdd gyflwyno enwau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Cynigiwyd hefyd y dylid ailedrych ar gyfnod swydd y Cadeirydd, oherwydd teimlai JL y byddai cyfnod o ddwy flynedd yn fwy priodol. Bydd hyn yn cael ei drafod eto pan fydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu.</p>	<p>Rhaglen Ebrill 2018 - RW</p>
<p>7.</p>	<p><u>Ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - cynlluniau Cwmpas a Chyflenwi</u> Mae 4 cynllun cwmpasu a chyflenwi wedi'u derbyn.</p> <p><u>7.1 Teulu gydag anghenion cymhleth</u></p> <p>Cyflwynodd RS y cynllun ar ran y Cyfarwyddwyr Arweiniol a nodwyd bod yr oedi oherwydd cymhlethdodau cydlynu i sicrhau darpariaeth. Mae'r cynllun a gyflwynwyd yn nodi blaenoriaethau plant, pobl ifanc a theuluoedd.</p> <p>Cododd LR bwynt a wnaed gan y gwasanaethau plant yn CBSC, y dylid bod datganiad cryfach ynglŷn ag iechyd corfforol, iechyd emosiynol, iechyd meddwl, plant dan ofal yn hytrach na iechyd corfforol yn unig.</p> <p>Mae strategaeth plant a phobl ifanc yn bodoli eisoes. Atgoffodd GR aelodau'r bwrdd mai blaenoriaeth y Bwrdd, fel y nodwyd yn y Ddeddf, yw integreiddio gwasanaethau i blant gydag anghenion cymhleth, ond mae'r cynllun sydd wedi'i gyflwyno yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac mae ond un cyfeiriad yn y cynllun am blant ag anghenion cymhleth. Felly, nid yw hyn yn diwallu disgwyliadau'r Bwrdd. Nododd MO ei bod yn bwysig peidio gweld plant ag anghenion cymhleth ar wahân, ac roedd yn awyddus bod y cynllun yn canolbwyntio ar y grŵp hwn, ond yng nghyd-destun y gwaith plant, pobl ifanc a theuluoedd</p>	<p>Rhaglen Medi 2017</p>

	<p>ehangach.</p> <p>Cytunodd yr Aelodau y bydd angen diffinio plant ag anghenion cymhleth a bydd hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cynllun newydd i'r Bwrdd.</p> <p><u>7.2 IFSS</u></p> <p>Cyflwynodd BJE yr adroddiad ar ran CF.</p> <p>Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob rhanbarth yn blaenoriaethu integreiddiad gwasanaethau yn IFSS.</p> <p>Mae eisoes gwasanaeth IFSS is-ranbarthol sefydledig rhwng Gwynedd/Môn a Sir y Fflint/Wrecsam ac mae gan Sir Ddinbych a Chonwy wasanaethau ar wahân yn eu gwasanaethau Plant ehangach. Er bod angen gwneud gwaith pellach yn Sir Ddinbych a Chonwy i sicrhau bod y gwasanaeth IFSS yn diwallu gofynion y Ddeddf a hefyd gofynion ariannu cyllideb ar y cyd rydym yn credu fel rhanbarth y dylai'r gwasanaethau gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'u bod yn cyflawni'r canlyniadau cywir i unigolion.</p> <p>Mynegwyd pryder gan ieuchyd nad yw disgrifiad y ffrwd gwaith yn gwneud swyddogaeth ieuchyd yn eglur yn y ddogfen. Gellir edrych ar hyn tra bod y gwaith yn datblygu.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r cynllun cwmpas a chyflenwi.</p> <p><u>7.3 Pobl hyn sydd ag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia</u></p> <p>Cadarnhaodd RS y cwmpas Pobl Hŷn ac mae cynllun cyflawni yn datblygu ac yn amlwg yn yr holl nodau strategol. Mae ieuchyd eisoes yn datblygu eu strategaeth Pobl Hŷn eu hunain ac mae'n cynnal ymgysylltiad â phartneriaid.</p> <p>Bydd cynlluniau heneiddio'n dda yr awdurdod lleol ac ymglymiad ieuchyd yn cyfrannu at y ffrwd gwaith.</p> <p>Mynegwyd pryder gan aelodau mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill gyda BIPBC a lle mae ymgysylltiad gyda phartneriaid. Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd mai maes blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd, fel y nodwyd yn y Ddeddf, yw integreiddio gwasanaethau i Bobl Hŷn gydag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia. Nid yw'r cynllun cwmpas a chyflenwi yn esbonio hyn. Mae angen i'r cynllun cwmpas a chyflenwi esbonio sut y bydd awdurdodau lleol ac ieuchyd, gan weithio gyda phartneriaid</p>	<p>Rhaglen Medi 2017</p>
--	--	------------------------------

	<p>yn integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia.</p> <p>Bydd cynllun cwmpas a chyflenwi yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.</p> <p><u>7.4 Anableddau Dysgu</u> Mae'r cynllun cwmpas a chyflenwi wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â'r aelodau partneriaeth Anableddau Dysgu sefydledig.</p> <p>Y bwriad yw cynnal ymarfer cwmpasu pellach i alluogi datblygu strategaeth Anableddau Dysgu ar draws y partneriaid. Gellir cynnal yr ymarfer cwmpasu pellach hwn a rhoi gwybod i'r Bwrdd yn hwyr yn yr hydref.</p> <p>VW – gofynnodd nad yw Llais a Rheolaeth yn cael ei gynnwys yn ddigonol yn y cynllun cwmpas a chyflenwi.</p> <p>Nododd yr Aelodau y dylai'r gwasanaethau addysg fod o fewn y cwmpas ac ystyriwyd hefyd y newidiadau mewn perthynas â phlant hyd at 25 oed. Bydd hyn yn cael ei godi yn y gwaith cwmpasu.</p> <p>Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i sicrhau bod ymglymiad pobl ag anableddau dysgu yn y gwaith hwn. Nododd SFJ bod eisoes rhwydwaith anableddau dysgu cryf a fyddai'n galluogi hyn yn ogystal â fforymau lleol.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r cynllun cwmpas a chyflenwi.</p>	
8.	<p><u>Adroddiad arian grant trawsnewidiol gofalwyr 2016-17</u> Cyflwynodd BJE yr adroddiad ar ran DC.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut defnyddiwyd arian grant trawsnewidiol gofalwyr yn y rhanbarth i bartneriaid yn 2016/17. Cyflwynwyd yr adroddiad i Llywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2017 trwy'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Yn dilyn ymlaen o'r Asesiad Poblogaeth, mae gofyniad i'r BPRhGC ddatblygu Cynllun Gweithredu sy'n cydymffurfio â SSWBA 2014 i gyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn Ebrill 2018 ac mae'r gwaith hwn ar y gweill.</p> <p>Mae'r Rheolwr Busnes Rhanbarthol wrthi'n gweithio ar fapio gwasanaethau, ffrydiau ariannu a chasglu straeon gofalwyr – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i BPRhGC Tach/Rhag fan bellaf.</p>	Rhaglen Tach/Rhag 2017

9.	<u>Marchnad Darparwyr/Diweddariad rhaglen 5 diwrnod mewn ystafell</u> Cytunwyd y bydd yr eitem yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.	Rhaglen Medi 2017
10.	<u>Trosolwg o ddefnydd y Gronfa Gofal Sylfaenol</u> Cytunwyd y bydd yr eitem yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.	Rhaglen Medi 2017
11.	<u>Rhaglen ICF</u> Cyflwynodd NA adroddiad ar ddatblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS). Bydd y gwasanaeth yn bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd a bydd Sir y Fflint yn cynnal swyddi nad ydynt yn rhai iechyd, a'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi'r staff iechyd. Mae gofynion y gwasanaethau wedi'u rhagnodi yn genedlaethol a does dim llawer o hyblygrwydd o amgylch y strwythurau. Mae pedwar dewis strwythur gwasanaeth yn cael eu hystyried a'r cais yw i'r Bwrdd gefnogi'r cynnig prosiect i'w gyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Gorffennaf i ddenu'r cyllid Cronfa Gofal Canolraddol (ICF). Bydd llywodraethu yn ymwneud ag un awdurdod lleol yn cynnal y gwasanaeth yn cael ei drafod yn y cyfarfod IAS brynhawn heddiw. Cytunodd yr Aelodau y dylid dileu'r swydd therapydd iaith a lleferydd ar y dewisiadau strwythur. Roedd y Bwrdd yn cytuno i gefnogi'r cynnig prosiect.	
12.	<u>Diweddariad o'r cyfarfod gyda'r Gweinidog ddydd Llun 10 Gorffennaf 2017.</u> Cytunwyd y bydd yr eitem yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.	Rhaglen Medi 2017
13.	<u>Cysylltiadau gyda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl</u> Gohebiaeth gan Rachael Piece Jones a Katie Clubb – i'w ohirio tan y cyfarfod nesaf.	Rhaglen Medi 2017
14.	<u>Unrhyw fater arall</u> Nododd MW bod gwahaniaeth yn sut y mae pob un o'r BPRh yn gweithio. Mae aelodau anstatudol Cwm Taf yn rhan o'r grŵp Arweinyddiaeth a gall hyn fod yn rhywbeth y	

	dylai Gogledd Cymru ei ystyried.	
15.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf 6 Medi 2017 am 9:30 – 12:30 Optic, Parc Busnes Llanelwy</p> <p>Bydd y cyfarfod hwn yn dechrau yn gynharach, am 9.30 oherwydd nifer yr eitemau i'w trafod ar y rhaglen a bydd gwahoddiad calendr newydd yn cael ei anfon.</p>	Anfon cais newydd am gyfarfod - RW